# Adrodd ar berfformiad ysgolion – Bwletin 6

© Hawlfraint y Goron Chwefror 2019
WG33557

## Cefndir

Drwy'r bwletin hwn, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Awdurdodau Lleol a Chonsortia am faterion yn ymwneud ag adrodd ar berfformiad ysgolion. Drwy'r sianel hon, byddwn yn parhau i roi gwybod i chi am benderfyniadau sy'n effeithio ar bolisïau adrodd ar berfformiad ac yn egluro unrhyw faterion cymhleth. Rhannwch y wybodaeth hon gyda'ch ysgolion fel y bo'n berthnasol.

## Mesurau dros dro Cyfnod Allweddol 4 – diweddariad:

## Manylion sylfaenol y mesurau sy'n cael eu gweithredu ar ôl cyhoeddi canlyniadau CA4 yn 2019

**Beth mae'r diweddariad hwn yn ei gwmpasu?**

1. **Cefndir a chyd-destun y trefniadau dros dro ar gyfer mesur perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4)**
2. **Nodau gweithredu'r trefniadau dros dro ar gyfer mesur perfformiad yn CA4**
3. **Y manylion sy'n sail i'r mesurau perfformiad dros dro ar gyfer CA4 sydd i'w gweithredu o 2019 ymlaen.**

**Beth nad yw'r diweddariad hwn yn ei gwmpasu?**

1. **Trefniadau adrodd, gan gynnwys darparu data, fformat y data, y gofynion o ran dadansoddi (mewn perthynas â chyflwyno data a dadansoddi grwpiau o ddisgyblion, yn ogystal â gofynion penodol i ysgolion ystyried data penodol)**

**Mwy am y mesurau perfformiad dros dro ar gyfer CA4**

### Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r manylion a gadarnhawyd, sy'n sail i'r mesurau perfformiad dros dro ar gyfer CA4 a fydd yn cael eu gweithredu o 2019 ymlaen. Cyhoeddwyd datganiad gan y Gweinidog yn cyhoeddi'r newidiadau hyn ym mis Mai 2018. Mae'r ddogfen hon yn ychwanegu fwy o manylion at y cyhoeddiad cychwynnol ac yn esbonio ymhellach y newidiadau hyn yng nghyd-destun y daith i ddiwygio addysg, ynghyd â'r nodau a'r bwriadau o ran eu cyflwyno.

Mae cyflwyno'r mesurau dros dro yn rhan o'r trefniadau gwerthuso a gwella drafft, sy'n rhan o'r rhaglen diwygio addysg arwyddocaol rydym yn ymgymryd â hi yng Nghymru. Mae'n bwysig cofio mai trefniadau dros dro yn unig yw'r newidiadau hyn sy'n digwydd ar unwaith. Bydd darlun o ddatblygiadau yn y dyfodol wrth inni bontio

rhwng y system bresennol a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Bydd diweddariad ynghylch y maes hwn o'r gwaith diwygio yn cael ei rannu ym mis Chwefror.

## Y Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â nifer o bartneriaid ac arbenigwyr, wedi cynnal adolygiad sylfaenol o'r system atebolrwydd i ysgolion yng Nghymru. Roedd y canfyddiadau yn dangos bod gan y system bresennol a'i defnydd o fesurau perfformiad lawer o ganlyniadau anfwriadol negyddol, megis lleihau dewisiadau yn y cwricwlwm, ffocws anghymesur ar grwpiau penodol o ddysgwyr, y ffordd y mae meincnodi yn cael ei ddefnyddio gan greu cystadleuaeth rhwng ysgolion yn hytrach nag annog cydweithio, llwyth gwaith cynyddol a diangen i athrawon ac eraill yn y system heb yr effaith neu'r budd angenrheidiol i ddysgwyr, a chrynhoi data at ddibenion *atebolrwydd* er iddo gael ei gynllunio at ddibenion *gwella*. O ganlyniad, mae ysgolion wedi clywed negeseuon anghyson gan wahanol rannau o'r system ynghylch yr hyn sy'n bwysig. Yn aml, mae hyn wedi golygu bod ymdrech wedi'i dynnu oddi wrth ddysgu ac addysgu a'n bod wedi symud tuag at ddiwylliant o gydymffurfiaeth a biwrocratiaeth.

## Dyfodol mesurau perfformiad

Rydym yn datblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd yn lle'r system atebolrwydd bresennol. Maent wedi'u llunio ar y cyd â chydweithwyr mewn ysgolion, Estyn, llywodraeth leol a chonsortia rhanbarthol, gan roi ystyriaeth i ymchwil ryngwladol. Rydym wedi cymryd gofal i sicrhau bod y trefniadau yn cyd-fynd â'r cwricwlwm sy'n datblygu.

Mae'r modd y bydd mesurau perfformiad, neu unrhyw fath o ddangosyddion sy'n rhoi gwybodaeth, yn cael eu defnyddio, a sut olwg fydd arnynt, yn cael ei adolygu'n llawn a byddant yn cael eu datblygu yn yr un modd. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau'r newid o ran diwylliant sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o weithredu a gwireddu'r cwricwlwm newydd. Gall y mesurau fod yn feintiol ac yn seiliedig ar ddata ynghylch cyrhaeddiad, neu'n ansoddol, ond ni waeth pa fath o fesurau ydynt, byddant wedi'u cynllunio i'n helpu i gyrraedd ein nod, sef galluogi'r holl ddysgwyr i gyflawni eu potensial. Byddwn yn adolygu ac yn ystyried elfennau allweddol wrth inni symud ymlaen, gan gynnwys:

- sut i rannu mesurau atebolrwydd a data ar gyfer hunanwerthuso;
- sut i reoli llwyth gwaith athrawon wrth inni ddatblygu'r gwaith;
- pennu unrhyw fesurau cynnydd â llinellau sylfaen dibynadwy; a

- rhoi ystyriaeth i werth mesurau ysbeidiol yn hytrach na mesurau diwedd gyrfa.

Hefyd, bydd y rôl o ran pennu targedau o fewn y trefniadau diwygiedig yn cael ei harchwilio.

## Eleni - 2019

Deallwn na fydd y mesurau dros dro sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2019[1] yn newid ymddygiadau ar draws y system yn sylweddol. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl i ysgolion fod yn destun craffu anghymesur yn seiliedig ar un neu ddau fesur yn unig wrth inni geisio symud at system sy'n gwerthfawrogi ystod ehangach o lawer o ffactorau wrth asesu effeithiolrwydd ysgolion o ran darparu ar gyfer anghenion dysgwyr unigol yn y ffordd orau. Byddwn yn disgwyl i gonsortia rhanbarthol gynorthwyo ysgolion i wneud penderfyniadau addas ar gyfer ei cwricwlwm er mwyn osgoi lleihau'r dewis i ddysgwyr. Bwriad y newidiadau i'r mesurau eleni yw i helpu ehangu'r dewis i ddisgyblion a gwerthfawrogi anghenion a chyflawniadau unigol.

Mae mesurau perfformiad wedi'u cynllunio at ddiben penodol, sef casglu data mewn modd sy'n briodol i hunanwerthuso ac yn fan cychwyn ar gyfer dadansoddi a chynllunio. Felly, yn ôl eu cynllun, maent yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallant ei gyfleu ac ni ddylid eu defnyddio ar eu pennau eu hunain neu allan o'u cyd-destun, na'u cyflwyno'n dystiolaeth o ba mor effeithiol y mae ysgol.

Mae'n bwysig i ysgolion, cyrff llywodraethu, awdurdodau a chonsortia ystyried ac ymgysylltu â'r bwriadau ehangach o ran polisi a'r cwricwlwm y mae mesurau perfformiad yn seiliedig arnynt. Yn benodol, dylai ysgolion gofio am yr angen i gynnig cwricwlwm eang a chytbwys. Disgwylir i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr gael cyfle i astudio, o leiaf, am gymhwyster iaith a llenyddiaeth yn y Gymraeg/Saesneg, TGAU mathemateg a rhifedd, a thri chymhwyster TGAU gwyddoniaeth ar wahân neu TGAU dyfarniad dwbl.

Mae'r mesurau yn cael eu newid i fod yn llai cyfarwyddol o ran yr hyn a fydd yn bwysig, er mwyn cynorthwyo ysgolion i gynnig dysgwyr am y cymwysterau mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion, fodd bynnag, bydd cwricwlwm ysgolion/disgwyliadau o ran y ddarpariaeth yn parhau.

Nid ydym yn disgwyl i ysgolion ddefnyddio'r mesurau perfformiad dros dro i gyfiawnhau gollwng TGAU mathemateg – rhifedd yn gyfan gwbl. Rydym hefyd yn bryderus bod perygl y bydd rhai ysgolion yn mabwysiadu dull cul o ran cynnig dysgwyr am TGAU gwyddoniaeth.

[1] Byddwn yn adrodd ynghylch y mesurau dros dro newydd yn hydref 2019 o ran disgyblion a fydd wedi cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 4 yn yr haf blaenorol, h.y. Blwyddyn 11 sy'n gorffen yn haf 2019.

Mae'n rhaid i fudd dysgwyr bob amser fod yn brif ffactor mewn unrhyw benderfyniad ynghylch y cymwysterau a ddewisir ac ni ddylai newidiadau o ran mesurau perfformiad reoli dewisiadau dysgwyr. Mae'r gwaith hwn yn ceisio cynorthwyo ysgolion i gyflawni hyn. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ynghylch diweddariadau i'r gofynion statudol o ran pennu targedau i ysgolion, er mwyn cyd-fynd â'r dull hwn yng Nghyfnod Allweddol 4 ar sail dros dro.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio i'r consortia rhanbarthol yr angen penodol i gynorthwyo, herio ac ymgysylltu â ysgolion nhw ynghylch materion yn ymwneud â phenderfyniadau am gynnig dysgwyr am gymwysterau a gosod dysgwyr y tu allan i'w grŵp blwyddyn disgwyliedig wrth inni weithredu'r newidiadau hyn. Rydym hefyd wedi pwysleisio'r rhesymeg uchod o ran ystyried perfformiad ysgolion mewn perthynas ag ystod eang o ffactorau a defnyddio gwybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion yn rhan fach o hyn.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi dechrau gwaith i fynd i'r afael â rhai o'r pwysau sy'n deillio o'r system ehangach o graffu ar berfformiad ysgolion, ac rydym yn cydweithio â'r rhanddeiliaid hyn i newid y diwylliant o ran canolbwyntio ar fesurau unigol allan o'u cyd-destun.

| **Y camau nesaf i weithredu'r mesurau dros dro:** |
| --- |

1. **Cadarnhau'r gofynion o ran dadansoddi a'r trefniadau adrodd, gan gydweithio â sefydliadau sy'n rhanddeiliaid allweddol**
2. **Cyhoeddi canllawiau cynhwysfawr ynghylch y mesurau dros dro, darparu data a'r defnydd disgwyliedig – ddiwedd gwanwyn 2019**
3. **Cyflwyno data 2018 i ysgolion ar ffurf mesurau dros dro 2019 – ddiwedd gwanwyn 2019**

**Manylion ynghylch y mesurau dros dro ar gyfer CA4**

## Y garfan sydd i'w mesur

1. Y garfan sydd i'w mesur fydd disgyblion Blwyddyn 11 o hyd. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried cywirdeb y data am y grŵp blwyddyn a gyflwynwyd i ni, gwiriadau ychwanegol i'r system y gall fod eu hangen i sicrhau bod y wybodaeth hon yn ddibynadwy a pha gamau gweithredu pellach y gellir eu cymryd i sicrhau bod disgyblion yn cael eu gosod y tu allan i'w grŵp blwyddyn disgwyliedig lle bo hynny'n briodol yn unig.

2. Bydd yr holl ddisgyblion Blwyddyn 11 ar gofrestr yr ysgol yn cael eu cynnwys yn y data am ganlyniadau yn CA4, ac eithrio'r rheiny y nodwyd eu bod yn newydd i'r system addysg sy'n seiliedig ar y Gymraeg neu'r Saesneg yn y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf, neu'r rheiny o'r system addysg sy'n seiliedig ar y Gymraeg neu'r Saesneg ond sydd â chymwysterau nad ydynt yn cael eu cyfrif mewn data am berfformiad yn CA4 yng Nghymru. Gall disgyblion o'r fath gael eu heithrio o'r ffigurau, fodd bynnag, bydd hyn yn golygu eu bod yn cael eu heithrio o'r **holl** fesurau data am berfformiad yn CA4 ar lefel yr ysgol ac ar lefel yr awdurdod lleol.

## Cymwysterau y gellir eu cynnwys mewn data am berfformiad

3. Bydd yr holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo neu'u dynodi i'w darparu yng Nghymru yn parhau i gael eu cyfrif tuag at fesurau perfformiad CA4, ac eithrio lle nodir gofynion penodol o ran pwnc, ar yr amod eu bod:

    - yn gymhwyster hyd at Lefel 3, gan gynnwys y lefel honno;
    - wedi'u cymeradwyo/eu dynodi i'w darparu i ddysgwyr cyn-16 ac yn ymddangos felly ar Gymwysterau yng Nghymru (QiW); ac
    - nad ydynt yn gymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru – bydd y cymwysterau hyn yn parhau i gael eu heithrio o fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4, yn unol â'r argymhelliad a wnaed yn yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer Pobl Ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru 2012. Serch hynny, gall y cymwysterau hyn fod yn ddewis priodol i rai dysgwyr cyn-16.

4. Dim ond dyfarniad cyflawn cyntaf cymhwyster y gellir ei gynnwys yn y mesurau, heb ystyried a fydd disgybl yn ennill gradd well am yr un cymhwyster wedi hynny.

5. Bydd y system ddisgowntio bresennol yn cael ei chadw – gellir cael hyd i'r codau disgowntio ar y system [Cymwysterau yng Nghymru (QiW)](#).

6. Mae rhai o'r mesurau dros dro yn gofyn neu'n cynnwys slotiau lle mae angen ennill cymhwyster penodol neu un o nifer bach o gymwysterau penodol. Mae'r cymwysterau hyn am: lythrennedd, rhifedd, gwyddoniaeth a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Bydd yr holl gymwysterau sy'n gallu cyfrannu at y mesurau hyn yn cael eu nodi'n glir ar y system QiW i randdeiliaid.

7. Bydd graddau dyfarniad dwbl TGAU gwyddoniaeth yn cael eu trin yn ddyfarniadau sengl TGAU ar wahân at ddibenion cyfrifo mesurau perfformiad.

8. Bydd dyfarniadau a enillwyd gan ddisgybl mewn blwyddyn flaenorol yn parhau i gael eu cyfrif pan fydd y disgybl yn cyrraedd y garfan Blwyddyn 11 sy'n cael ei mesur.

### Cysylltu gwerthoedd â chymwysterau

9. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r paramedrau a'r gwerthoedd sylfaenol presennol a bennwyd o ran lefel y cymhwyster, oriau dysgu dan arweiniad a'r strwythurau graddio.

10. Y cyfraniad mwyaf y gall unrhyw gymhwyster unigol nad yw'n gymhwyster TGAU (ac eithrio Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch) ei wneud tuag at unrhyw un o'r mesurau fydd yr hyn sy'n cyfateb i ddau gymhwyster TGAU o hyd. Bydd y gwerthoedd cysylltiedig a ddefnyddir i gyfrifo'r mesurau yn parhau i gael eu nodi o ddyddiad dyfarnu cymhwyster.

11. Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch y rhesymeg o ran cysylltu gwerthoedd â chymwysterau ar y wefan: https://beta.llyw.cymru/mesur-perfformiad-ysgol-gwerthoedd-cyfraniad-cymwysterau

### Y mesurau dros dro - trosolwg

12. Bydd yr holl fesurau yn seiliedig ar bwyntiau, h.y. cyfartaledd sgorau pwyntiau disgyblion unigol mewn ysgol, yn hytrach na chanran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel trothwy isaf.

13. Y prif fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyhoeddi fydd:

    - Mesur Capio 9
    - Mesur llythrennedd

- Mesur rhifedd
- Mesur gwyddoniaeth
- Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Mae'r adrannau canlynol yn manylu ar sut y mae pob un o'r mesurau wedi'u llunio.

**Mesur Capio 9**

14. Mae'r Sgôr Capio Pwyntiau yn fesur perfformiad sy'n cyfrifo cyfartaledd y sgorau am y dyfarniadau gorau i'r holl ddisgyblion unigol yn y garfan, wedi'i gapio ar nifer penodol o gymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfwerth.

15. Yn 2019, bydd fersiwn y mesurau dros dro yn parhau wedi'i gapio ar naw o gymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfwerth.

16. Mae angen dyfarniadau pynciau a chymwysterau penodol ar dri o'r naw slot er mwyn cyfrannu unrhyw bwyntiau at y mesur. Mae pob un o'r slotiau hyn yn cyfateb i un cymhwyster TGAU ac maent yn nodi gofynion o ran TGAU mewn llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth yn unig.

17. Gall y radd orau o unrhyw un o'r cymwysterau TGAU Cymraeg neu Saesneg - llenyddiaeth neu iaith gyntaf gyfrannu at y slot llythrennedd. Gall y radd orau o'r cymwysterau TGAU mathemateg neu fathemateg – rhifedd gyfrannu at y slot rhifedd. Gall y radd orau o gymhwyster TGAU gwyddoniaeth gyfrannu at y slot gwyddoniaeth (ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i gyfyngu i ddyfarniadau yng nghyfres cymwysterau TGAU gwyddoniaeth CBAC sydd ar gael i ddysgwyr: bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl) – nodir bod y rhain yn gallu cyfrannu at fesurau gwyddoniaeth ar gronfa ddata QiW: www.qiw.cymru).

18. Os oes gan ddisgybl nifer o ddyfarniadau am un o'r cymwysterau sy'n gallu cyfrannu at slot sy'n benodol i bwnc, dim ond canlyniad dyfarniad cyflawn cyntaf y cymhwyster hwnnw a ystyrir wrth bennu'r radd orau o blith grŵp o gymwysterau.

19. Yn achos pob dysgwr, bydd y chwe slot sy'n weddill yn adlewyrchu'r pwyntiau a gysylltir â'u chwe chymhwyster gorau, ac eithrio'r dyfarniadau hynny sy'n cyfrannu at y slotiau sy'n benodol i bwnc.

20. Er bod y swm mwyaf y gall unrhyw gymhwyster unigol ei gyfrannu wedi'i gapio (gweler pwynt 10 yn y brif ddogfen), ni fydd terfyn ar gyfanswm nifer y cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau TGAU a all gyfrannu at slotiau'r mesur nad ydynt yn benodol i bwnc. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i ysgolion gynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n briodol i anghenion y disgybl. Rydym wedi pwysleisio i'r consortia rhanbarthol ei bod yn bwysig cynorthwyo ysgolion ac ymgysylltu â nhw ynghylch y mater hwn.

21. Bydd cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn cyfrif tuag at slot nad yw'n benodol i bwnc ym mesur Capio 9 lle mae'n ymddangos yng nghanlyniadau gorau disgybl nad ydynt eisoes yn cyfrif tuag at y slotiau sy'n benodol i bwnc.

22. Bydd graddau TGAU gwyddoniaeth - dyfarniad dwbl yn cael eu trin yn ddyfarniadau sengl TGAU ar wahân at ddibenion cyfrifo mesurau perfformiad. Os mai canlyniad gorau disgybl am wyddoniaeth yw'r dyfarniad gwyddoniaeth dwbl a dyfarnwyd graddau nesaf at ei gilydd, y radd orau o'r ddwy radd fydd yn cyfrif tuag at y slot sy'n benodol i wyddoniaeth. Gall y radd isaf o'r ddwy radd gyfrif tuag at slot nad yw'n benodol i bwnc ym mesur Capio 9 lle mae'n ymddangos yng nghanlyniadau gorau disgybl nad ydynt eisoes yn cyfrif tuag at y slotiau sy'n benodol i bwnc.

23. Ceir diagram yn Atodiad A sy'n manylu ar y mesur Capio 9.

**Y mesur llythrennedd**

24. Mae'r mesur llythrennedd yn fesur perfformiad sy'n cyfrifo cyfartaledd y sgorau i'r holl ddisgyblion unigol yn y garfan, gan gymryd y radd orau o unrhyw un o'r cymwysterau TGAU Cymraeg neu Saesneg – llenyddiaeth neu iaith gyntaf a ddyfarnwyd i ddisgybl. Bydd y cymwysterau sy'n ddilys ar gyfer y slotiau hyn wedi'u nodi ar gronfa ddata QiW: [www.qiw.cymru](www.qiw.cymru).

25. Os oes gan ddisgybl nifer o ddyfarniadau am un o'r cymwysterau sy'n gallu cyfrannu at y mesur hwn, dim ond canlyniad dyfarniad cyflawn cyntaf y cymhwyster hwnnw a ystyrir wrth nodi'r radd orau.

**Y mesur rhifedd**

26. Mae'r mesur rhifedd yn fesur perfformiad sy'n cyfrifo cyfartaledd y sgorau i'r holl ddisgyblion unigol yn y garfan, gan gymryd y radd orau o'r cymwysterau TGAU mathemateg neu fathemateg – rhifedd a

ddyfarnwyd i ddisgybl. Bydd y cymwysterau sy’n ddilys ar gyfer y slotiau hyn wedi’u nodi ar gronfa ddata QiW: www.qiw.cymru.

27. Os oes gan ddisgybl nifer o ddyfarniadau am un o’r cymwysterau sy’n gallu cyfrannu at y mesur hwn, dim ond canlyniad dyfarniad cyflawn cyntaf y cymhwyster hwnnw a ystyrir wrth nodi’r radd orau.

### Y mesur gwyddoniaeth

28. Mae’r mesur gwyddoniaeth yn fesur perfformiad sy’n cyfrifo cyfartaledd y sgorau i’r holl ddisgyblion unigol yn y garfan, gan gymryd y radd orau o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth a ddyfarnwyd i ddysgwr (ar hyn o bryd, mae hyn wedi’i gyfyngu i ddyfarniadau yng nghyfres cymwysterau TGAU gwyddoniaeth CBAC sydd ar gael i ddysgwyr: bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl) – nodir bod y rhain yn gallu cyfrannu at fesurau gwyddoniaeth – mae’r rhain wedi’u nodi ar gronfa ddata QiW: www.qiw.cymru).

29. Os oes gan ddisgybl nifer o ddyfarniadau am un o’r cymwysterau sy’n gallu cyfrannu at y mesur hwn, dim ond canlyniad dyfarniad cyflawn cyntaf y cymhwyster hwnnw a ystyrir wrth nodi’r radd orau.

30. Os mai canlyniad gorau disgybl am wyddoniaeth yw’r dyfarniad gwyddoniaeth dwbl a dyfarnwyd graddau nesaf at ei gilydd, y radd orau o’r ddwy radd fydd yn cyfrif tuag at y mesur gwyddoniaeth.

### Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

31. Mae mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn fesur perfformiad sy’n cyfrifo cyfartaledd y sgorau am ddyfarniadau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru i’r holl ddisgyblion unigol yn y garfan, boed yn ddyfarniadau Sylfaen (Lefel 1) neu Genedlaethol (Lefel 2).

## Cysylltwch â Ni

Ebostiwch **ims@llyw.cymru** gydag unrhyw gwestiynau am adrodd ar berfformiad ysgol.

## Atodiad A – Mesurau dros dro 2019 – Mesur Capio 9 diwygiedig – diagram

| Slot | Gofyniad | |
|---|---|---|
| 1 – slot llythrennedd | TGAU Cymraeg Iaith 1af neu Saesneg Iaith neu Lenyddiaeth Gymraeg neu Lenyddiaeth Saesneg yn unig | Gofynion sy'n benodol i bwnc. Lle gall nifer o ddyfarniadau gyfrif, cymerir y radd orau a enillwyd gan ddisgybl. Dim ond canlyniad dyfarniad cyflawn cyntaf y cymhwyster hwnnw a ystyrir wrth nodi'r radd orau. |
| 2 – slot rhifedd | TGAU Mathemateg – rhifedd neu Fathemateg yn unig | |
| 3 – slot gwyddoniaeth | Wedi'i gyfyngu i ddyfarniadau yng nghyfres cymwysterau TGAU gwyddoniaeth CBAC sydd ar gael i ddysgwyr: bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl) | |
| 4 | | 'Chwech arall' (chwe TGAU neu nifer cyfwerth o gymwysterau). Nid oes terfyn ar gyfanswm nifer y cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau TGAU sy'n gallu cyfrannu.<br><br>Gall yr holl gymwysterau a gymeradwywyd/ dynodwyd i'w darparu i ddisgyblion cyn-16 yng Nghymru gael eu cyfrif, yn amodol ar y rheolau disgowntio arferol, ac eithrio cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.<br><br>Gall cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru gael ei gyfrif tuag at slot nad yw'n benodol i bwnc ar gyfer mesur lle mae'n ymddangos yn nyfarniadau gorau disgybl. |
| 5 | | |
| 6 | | |
| 7 | | |
| 8 | | |
| 9 | | |